# Polisi Amddiffyn Plant

**1. Rhagarweiniad**

Mae Ysgol Llanbedrog yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen yn ein polisi:-

- **atal** drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion;
- **gweithdrefnau ar gyfer adnabod** achosion neu amheuon o gam-drin ac adrodd arnynt. Oherwydd ein cysylltiad beunyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar unrhyw arwyddion allanol o gam-drin
- **chefnogi** disgyblion a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, ac i'r llywodraethwyr. Efallai mai cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon, fydd y bobl gyntaf y mae plentyn yn datgelu gwybodaeth iddynt.

- Person dynodedig Amddiffyn Plant yr ysgol yw'r Pennaeth.
- Llywodraethwr dynodedig yr ysgol yw Carwyn Evans.

Mae'r ddau wedi bod ar hyfforddiant perthnasol ac mewn cyswllt pan gyfyd achosion o bryder.

**2. Atal**

Rydym yn cydnabod bod hunanwerth uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da rhwng disgyblion ac oedolyn y gallant ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion. Felly bydd yr ysgol:-

- yn sefydlu a chynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a lle'r ydym yn gwrando arnynt;
- yn sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y medrant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion;
- yn cynnwys, yn y cwricwlwm, weithgareddau a chyfleoedd Addysg Bersonol a Chymdeithasol i roi i'r plant y sgiliau angenrheidiol i ddiogelu eu hunain rhag cael eu cam-drin ac i wybod at bwy i droi am gymorth;
- yn cynnwys, yn y cwricwlwm, ddeunydd i helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran sgiliau gofal plant a magu plant.

**3. Gweithdrefnau**

Byddwn yn glynu at 'Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' sydd wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol. (Ffeil yn yr ystafell staff)

Bydd yr ysgol yn:-

- sicrhau bod ganddi uwch aelod o staff dynodedig sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol- sef Manon Haf Owen (Pennaeth)
- cydnabod rôl y person dynodedig ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. *Efallai y bydd ysgolion eisiau sôn am yr hyfforddiant ychwanegol sy'n cael ei gyflawni gan eu person dynodedig;*
- sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:-
    - enw'r person dynodedig a'i rôl;
    - bod ganddynt gyfrifoldeb fel unigolion dros gyfeirio pryderon amddiffyn plant drwy ddefnyddio'r sianelau iawn ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant
    - sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r person dynodedig ar gael.

- sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth
- sicrhau bod rhieni'n deall y cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy nodi ei hymrwymiadau ym mhrosbectws yr ysgol
- darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod yn gwybod:-
    - beth yw eu cyfrifoldebau personol;
    - beth yw'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt;
    - bod angen bod yn effro i adnabod achosion o gam-drin
    - sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth.

  Rhaid i athrawon a chymorthyddion gwblhau hyfforddiant Educare a bydd athrawon, cymorthyddion a staff ategol yn derbyn hyfforddiant Amddiffyn Plant o fewn yr ysgol yn flynyddol. (Atodiad 1- Canllawiau Amddiffyn Plant- Nodyn i'r Staff)
- hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol os:-
    - bydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn yn cael ei wahardd naill ai am dymor penodol neu'n barhaol; ac
    - os yw disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod (neu am ddiwrnod yn dilyn penwythnos);
- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac yn cydweithredu, fel bo angen, â'u hymholiadau i faterion amddiffyn plant, gan gynnwys mynychu'r adolygiad cychwynnol a grwpiau craidd a chynadleddau amddiffyn plant a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau;
- cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a pha gamau a gymerwyd), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yn syth;
- sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo, yn y **Bocs Coch**;
- cadw at y gweithdrefnau a nodir yng nghylchlythyr cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru a **chanllawiau y Bocs Coch**;
- sicrhau y llunnir gweithdrefnau recriwtio a dewis yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cylchlythyr 34/2002 "*Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithiogyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg*";
- dynodi llywodraethwr amddiffyn plant i oruchwylio polisi ac arferion amddiffyn plant yr ysgol.

### 4. Cefnogi'r Disgybl Sydd Mewn Perygl

Rydym yn cydnabod y gallai plant sydd mewn perygl, sy'n wynebu camdriniaeth neu sy'n dyst i drais, gael eu heffeithio'n drom gan hyn.

Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a sicr ym mywydau plant sydd mewn perygl. Er hynny, pan fyddant yn yr ysgol mae eu hymddygiad yn gallu bod yn herfeiddiol ac anystywallt, neu gallant fynd i'w cragen.

Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r disgybl drwy:

- gynnwys pethau yn y cwricwlwm sy'n annog hunan-werth
- gynnwys pethau yn y cwricwlwm sy'n annog hunan-gymhelliad (gweler adran 2 ar Atal);
- ethos yr ysgol sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o werth i ddisgyblion
- un o amcanion polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion agored i niwed yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn sydd wedi tramgwyddo ond heb niweidio hunanwerth y disgybl. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol, ond ei bod hi neuef yn cael eu gwerthfawrogi ac nad ydynt i'w beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;

- cael cyswllt cyson ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r myfyriwr, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad a'r Gwasanaeth Lles Addysg
- cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y mae unrhyw bryder yn ailgodi.

Pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud o'r ysgol, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Bwlio**

Mae ein polisi ar fwlio wedi'i nodi mewn dogfen ar wahân ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

**Ymyrryd yn Gorfforol**

Mae ein polisi ar ymyrryd yn gorfforol wedi'i nodi yn mewn dogfen ar wahan ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

**Plant gyda Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig**

Rydym yn cydnabod yn ystadegol mai plant gydag anableddau ac anawsterau ymddygiad yw'r rhai sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin. Mae angen i staff yr ysgol sy'n delio â phlant gydag anableddau difrifol a lluosog, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau ymddygiad ac emosiynol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddiono gam-drin.

Mabwysiadu Tymor yr Hydref 2013 Dyddiad adolygu: Hydref 2014, Hydref 2015, Gwanwyn 2016, Hydref 2017, Hydref 2018, Hydref 2019

Cadeirydd: J. Evans Pennaeth: M. H. Owen

Dyddiad: 22/10/19

**Atodiad 1**

# Canllawiau Amddiffyn Plant Ysgol Llanbedrog
# Nodyn i'r Staff

**Beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthych ei fod wedi cael ei gam-drin gan rywun nad yw'n aelod o staff.**

**(Os yw'r honiad yn erbyn aelod o staff, dylech adael i'r pennaeth wybod ar unwaith; os yw'r honiad yn erbyn y pennaeth dylech adael i'r llywodraethwr dynodedig a/neu uwch swyddog yr awdurdod wybod ar unwaith)**

Gall plentyn ymddiried mewn unrhyw aelod o staff, ac efallai na fydd bob amser yn mynd at aelod o'r staff addysgu. Dylai staff sy'n cael gwybod am honiad yn erbyn rhywun gofio:-

- mai rôl wrando sydd gennych, peidiwch â thorri ar draws y plentyn os yw'n adrodd atgofion o ddigwyddiadau pwysig. Dylech gyfyngu unrhyw gwestiynau i gadarnhau eich bod wedi deall yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud. Dylid gofyn unrhyw gwestiwn yn agored fel nad ydych yn arwain y plentyn;

- rhaid ichi adrodd yn llafar i'r **person amddiffyn plant dynodedig (pennaeth)** yn yr ysgol ar unwaith;

- dylech wneud nodyn o'r drafodaeth, cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol (ond o fewn 24 awr) i'w roi i'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol. Dylai'r nodyn, a ddylai ddefnyddio termau clir, gofnodi'r amser, y dyddiad, y lleoliad a'r bobl a oedd yn bresennol, a dylai gofnodi union atebion/ymatebion y plentyn mor agos â phosibl. Cofiwch, efallai y bydd eich nodyn o'r drafodaeth yn cael ei ddefnyddio mewn achos llys nes ymlaen;

- peidiwch ag addo y byddwch yn cadw'r mater yn hollol gyfrinachol;

- efallai bod plentyn yn disgwyl am achos mewn llys troseddol, efallai y bydd rhaid iddo roi tystiolaeth neu efallai ei fod yn disgwyl canlyniad achos gofal

- bydd eich cyfrifoldeb chi o ran cyfeirio pryderon yn dod i ben ar y pwynt hwn, ond efallai y bydd gennych rôl nes ymlaen o ran cefnogi neu fonitro'r plentyn, cyfrannu at asesiad neu gyda gweithredu cynlluniau amddiffyn plant.

**Cyfrinachedd**
Mae angen deall materion cyfrinachedd os yw plentyn yn datgelu gwybodaeth am gael ei gam-drin. Efallai na fydd plentyn yn teimlo'n hyderus i ymddiried mewn aelod o staff ond os yw'n teimlo na fydd y wybodaeth yn cael ei datgelu i neb arall. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig os yw plentyn yn cael trafferthion lles plant.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn delio â hyn yn sensitif ac yn egluro wrth y plentyn bod yn rhaid iddynt hysbysu'r bobl briodol fydd yn gallu helpu'r plentyn, ond na fyddant ond yn dweud wrth y rhai y mae angen iddynt wybod er mwyn gallu helpu. Dylent dawelu ofnau'r plentyn a dweud wrthynt na fydd pawb yn yr ysgol yn dod i wybod am eu sefyllfa. Cofiwch fod y plentyn, mae'n debyg, wedi gorfod bod yn hynod ddewr i ddatgelu'r wybodaeth a'u bod efallai'n profi emosiynau croestynnol el teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r camdriniwr yn rhywun sy'n agos atynt) ac wedi cael eu brifo.

Cofiwch hefyd am gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Gwnewch yn siwr mai dim ond y rhai sydd â rôl broffesiynol, e.e. y person dynodedig a'r prifathro/ prifathrawes, sydd â mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar adegau eraill, dylid eu cadw'n ddiogel dan glo ac ar wahân i brif ffeil y plentyn.

| | | |
|---|---|---|
| **Y person amddiffyn plant dynodedig yw:** | **Mrs Manon Haf Owen (pennaeth)** | **01758 740631** |
| **Llywodraethwr amddiffyn plant dynodedig yw:** | **Ms Emily Young** | **07706181297** |
| **Swyddog Diogelu Plant yn yr awdurdod lleol yw:** | **Mrs Delyth Lloyd Griffiths** | **07977504344** |

Atodiad 4

# CYNLLUN GWEITHREDU YSGOL LLANBEDROG
## AMDDIFFYN PLANT
### Canllawiau i Athrawon, Staff Ategol a Goruchwylwyr

Os yw disgybl yn dweud wrthych eu bod nhw neu ddisgybl arall yn cael eu camdrin yna:

1) Dangoswch eich bod wedi clywed a deall yr hyn y maent wedi ei ddweud, ac eich bod yn cymeryd yr honiad o ddifrif.

2) Anogwch y plentyn i siarad, ond heb bromptio na gofyn cwestiynau arweiniol.
-peidiwch â thorri ar eu traws
-peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd

3) Esboniwch y camau y mae'n rhaid i chi eu cymeryd mewn ffordd addas i oed a dealltwriaeth y disgybl, sef pasio'r wybodaeth yma ymlaen i'r Pennaeth.

4) Peidiwch addo a chadw'r hyn a ddywedwyd wrthych yn gyfrinach gan bod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd ag angen gwybod.

5) Gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y fan a'r bobl oedd yn bresennol gan ei arwyddo.

6) Cyflwynwch yr adroddiad a'ch pryderon i'ch Pennaeth.*

7) Yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr achos, swyddogaeth y Pennaeth yw penderfynu os oes angen cyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

8) Os oes angen cyngor pellach, yna cysylltwch â'r
i) Swyddog Addysg Ardal
ii) Swyddog Lles Addysg

***Pwysig-**
**Os yw'r honiad yn erbyn aelod o staff, gadewch i'r Pennaeth wybod ar unwaith.**
**Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth dywedwch wrth Swyddog Addysg neu'r llywodraethwr dynodedig (Emily Young).**